# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 21 Mai 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru'r ysgolion yng Nghymru lle mae llai na 30% o ddisgyblion wedi cael 5 neu fwy TGAU gradd A* i C, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, ym mhob blwyddyn er 1997? (WAQ54192)

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru'r ysgolion yng Nghymru lle mae llai na 30% o ddisgyblion wedi cael 5 neu fwy TGAU gradd A* i C ym mhob blwyddyn er 1997? (WAQ54193)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Caiff canlyniadau arholiadau disgyblion eu casglu'n flynyddol gan sefydliadau dyfarnu ar gyfer yr ymarfer perfformiad ysgol. Mae Tabl 1 yn rhestru'r ysgolion lle cafodd y trothwy Lefel 2 ei gyflawni gan lai na 30 y cant o'r disgyblion 15 mlwydd oed, gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg yn 2007 a 2008. Ni chasglwyd y wybodaeth yn ganolog cyn 2007. Mae Tabl 2 yn rhestru'r ysgolion lle cafodd y trothwy Lefel 2 ei gyflawni gan lai na 30 y cant o'r disgyblion 15 mlwydd oed ers 1997. Mae'r trothwy Lefel 2 yn gyfwerth â 5 TGAU gradd A*-C. Mae'r wybodaeth isod wedi'i rhestru yn nhrefn y wyddor ac mae'n ymwneud ag ysgolion uwchradd a gynhelir yn unig.

Tabl 1: Ysgolion yng Nghymru lle cafodd trothwy Lefel 2 ei gyflawni gan lai na 30 y cant o ddisgyblion, gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg yn 2007 a 2008

| Blwyddyn | Awdurdod Lleol | Enw Ysgol |
|---|---|---|
| 2007 | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Fechgyn Aberdâr |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Abertyleri |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Afon Taf |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Babyddol y Bendigaid Edward Jones |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Cantonian |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed |
| | Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gyfun Cymer Afan |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Daniel James |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Dyffryn |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd Treffynnon |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanedeyrn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Llysweri |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Mair Fendigaid |
| | Caerdydd | Coleg Cymunedol Michaelston |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Aberpennar |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Nantyglo |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Tredelerch |
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Sant Illtyd |
| | Rhondda Cynon Taf | Coleg Cymunedol Tonypandy |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Tredegar |
| | Tor-faen | Ysgol Gymunedol Trefddyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| | Conwy | Ysgol Bryn Elian |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrecsam | Ysgol Clywedog |
| | Sir Gaerfyrddin | Ysgol Glan y Môr |
| | Ynys Môn | Ysgol Uwchradd Caergybi |
| 2008 | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Fechgyn Aberdâr |
| | Tor-faen | Ysgol Gyfun Abersychan |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Abertyleri |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Babyddol Bishop Hedley |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Blaengwawr |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Cynffig |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Daniel James |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Dyffryn |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Glyn Ebwy |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gymunedol Glynrhedynog |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd y Fflint |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Heol Ddu |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd Treffynnon |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanedeyrn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Maesteg |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Mair Fendigaid |
| | Caerdydd | Coleg Cymunedol Michaelston |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Nantyglo |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerffili | Ysgol Gymunedol Rhisga |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Tredelerch |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Gymunedol Cennydd Sant |
| | Rhondda Cynon Taf | Coleg Cymunedol Tonypandy |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| | Wrecsam | Ysgol Bryn Alyn |
| | Ynys Môn | Ysgol Uwchradd Caergybi |

Tabl 2: Ysgolion yng Nghymru lle cafodd trothwy Lefel 2 ei gyflawni gan lai na 30 y cant o ddisgyblion, 1997 i 2008

| Blwyddyn | Awdurdod Lleol | Enw Ysgol |
|---|---|---|
| 1997 | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Abertyleri |
| | Bro Morgannwg | Ysgol Gyfun Bechgyn y Barri |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Bedwellte |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Blaengwawr |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Cathays |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Cefn Hengoed |
| | Caerffili | Ysgol Uwchradd Cwm-carn |
| | Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gyfun Cwrt Sart |
| | Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gyfun Cymer Afan |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Cynffig |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Dillwyn Llewelyn |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Dinefwr |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Glynrhedynog |

| | | |
|---|---|---|
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glan Ely |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Sir Gaerfyrddin | Ysgol Gyfun Graig |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanedeyrn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Llysweri |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Mair Fendigaid |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Aberpennar |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Nantyglo |
| | Casnewydd | Ysgol Gyfun Duffryn |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Aberogwr |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Penlan i Fechgyn |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Sirol y Porth |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Rhymni |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Tredelerch |
| | Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gyfun Sandfields |
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Sant Illtyd |
| | Wrecsam | Ysgol Uwchradd The Groves |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Tonypandy |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Tonyrefail |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Tredegar |
| | Tor-faen | Ysgol Gymunedol Trefddyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Ynysawdre |
| | Wrecsam | Ysgol Rhiwabon |
| 1998 | Bro Morgannwg | Ysgol Gyfun Bechgyn y Barri |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Bedwellte |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Babyddol y Bendigaid Edward Jones |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Cefn Hengoed |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Cynffig |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Dillwyn Llewelyn |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Dinefwr |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Glynrhedynog |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd y Fflint |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glan Ely |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanedeyrn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Llysweri |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Maesteg |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Aberpennar |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Nantyglo |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Penlan i Fechgyn |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Sirol y Porth |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Rhymni |
| | Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gyfun Sandfields |

| | | |
|---|---|---|
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Coedylan |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Tredegar |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd y Faenor a Phenderyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| 1999 | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Abertyleri |
| | Bro Morgannwg | Ysgol Gyfun Bechgyn y Barri |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Bedwellte |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Babyddol y Bendigaid Edward Jones |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Cantonian |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Cefn Hengoed |
| | Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gyfun Cymer Afan |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Dillwyn Llewelyn |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Dinefwr |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glan Ely |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Aberpennar |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Nantyglo |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Penlan i Fechgyn |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Rhymni |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Tredelerch |
| | Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gyfun Sandfields |
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Tonypandy |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd y Faenor a Phenderyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| 2000 | Caerffili | Ysgol Gyfun Bedwellte |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dillwyn Llewelyn |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Dyffryn |
| | Abertawe | Ysgol Dinefwr |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glan Ely |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Lewis i Fechgyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanedeyrn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Mair Fendigaid |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Penlan i Fechgyn |
| | Wrecsam | Ysgol Uwchradd The Groves |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Tredegar |
| | Tor-faen | Ysgol Gymunedol Trefddyn |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd y Faenor a Phenderyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| 2001 | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Abertyleri |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Babyddol y Bendigaid Edward Jones |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Cathays |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dillwyn Llewelyn |
| | Abertawe | Ysgol Dinefwr |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gymunedol Glynrhedynog |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glan Ely |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanedeyrn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Llysweri |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Mair Fendigaid |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Aberpennar |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Nantyglo |
| | Abertawe | Ysgol Gyfun Penlan i Fechgyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Tredelerch |
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Sant Illtyd |
| | Wrecsam | Ysgol Uwchradd The Groves |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Tonypandy |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd y Faenor a Phenderyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| | Conwy | Ysgol Emrys Ap Iwan |
| 2002 | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Abertyleri |
| | Caerffili | Ysgol Gyfun Bedwellte |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Cathays |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Daniel James |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Dyffryn |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Glyn Ebwy |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glan Ely |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanedeyrn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Mair Fendigaid |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Nantyglo |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Tredelerch |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Tonyrefail |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd y Faenor a Phenderyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| 2003 | Caerffili | Ysgol Gyfun Bedwellte |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Cantonian |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Daniel James |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Dyffryn |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanedeyrn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Caerdydd | Coleg Cymunedol Michaelston |
| | Abertawe | Ysgol Pentrehafod |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Tredelerch |
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Wrecsam | Ysgol Uwchradd The Groves |

| | | |
|---|---|---|
| | Tor-faen | Ysgol Gymunedol Trefddyn |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd y Faenor a Phenderyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Ynysawdre |
| | Wrecsam | Ysgol Rhiwabon |
| 2004 | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Babyddol y Bendigaid Edward Jones |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Cynffig |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Daniel James |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Dyffryn |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas |
| | Tor-faen | Ysgol Uwchradd Fairwater |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Caerdydd | Coleg Cymunedol Michaelston |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Tredelerch |
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Tor-faen | Ysgol Gymunedol Trefddyn |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd y Faenor a Phenderyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| | Wrecsam | Ysgol Rhosnesni |
| 2005 | Caerffili | Ysgol Gyfun Bedwellte |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Cathays |
| | Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gyfun Cymer Afan |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Daniel James |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Dyffryn |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas |
| | Tor-faen | Ysgol Uwchradd Fairwater |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gymunedol Glynrhedynog |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanedeyrn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Mair Fendigaid |
| | Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gyfun Aberpennar |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Sant Illtyd |
| | Rhondda Cynon Taf | Coleg Cymunedol Tonypandy |
| | Tor-faen | Ysgol Gymunedol Trefddyn |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd y Faenor a Phenderyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| | Wrecsam | Ysgol Clywedog |
| 2006 | Sir Ddinbych | Ysgol Babyddol y Bendigaid Edward Jones Ysgol |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Daniel James |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Mair Fendigaid |

| | | |
|---|---|---|
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Tredelerch |
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Tor-faen | Ysgol Gymunedol Trefddyn |
| 2007 | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Bettws |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Babyddol y Bendigaid Edward Jones Ysgol |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Daniel James |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Glyn Derw |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Llanrhymni |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Mair Fendigaid |
| | Merthyr Tudful | Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerffili | Ysgol Sant Ilan |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Babyddol Sant Illtyd |
| | Tor-faen | Ysgol Gymunedol Trefddyn |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |
| 2008 | Abertawe | Ysgol Gymunedol Daniel James |
| | Abertawe | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas |
| | Casnewydd | Ysgol Uwchradd Hartridge |
| | Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers |
| | Blaenau Gwent | Ysgol Gyfun Nantyglo |
| | Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| | Caerdydd | Ysgol Uwchradd Willows |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa amcangyfrif y mae a) ei Hadran a b) Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i wneud o ran nifer yr aelwydydd sy'n llosgi sbwriel cartref yn eu gerddi? (WAQ54158)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ54157

Mae gwybodaeth am nifer y coelcerthi niwsans ar gael gan Adran Iechyd Amgylcheddol pob awdurdod lleol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ymchwil y mae a) ei hadran a b) Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i wneud ynghylch llosgi gwastraff cartref yng nghwrtil cartrefi domestig? (WAQ54159)

**Jane Davidson:** Fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer adolygu strategaeth wastraff Cymru, cafodd ymgynghorwyr RPS eu comisiynu gan Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i astudio effeithiau llygredd cymharol y broses o gasglu deunydd ar gyfer compostio canolog a llosgi'r un deunydd mewn gerddi o fewn i gwrtil anheddau domestig.

Mae casgliadau'r adroddiad fel a ganlyn: '...er mwyn lleihau allyriadau carbon deuocsid a diocsinau, dylid annog pobl i beidio â llosgi gwastraff yr ardd a'u hannog i gasglu a chompostio gwastraff gwyrdd yn ganolog.'

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i hyrwyddo'r prosesau o gompostio yn y cartref a chompostio gwastraff gerddi yn ganolog yn hytrach na'i losgi mewn gerddi, yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyflwyno'r wybodaeth ganlynol mewn ymateb i'ch cwestiwn:

'Am nad oes cylch gwaith rheoliadol uniongyrchol gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran llosgi gwastraff y cartref ar eiddo domestig, nid ydym wedi cyflawni unrhyw ragamcanion neu waith ymchwil ar hyn.

Mae'n gyfreithlon i ddeiliaid tai losgi eu gwastraff eu hunain yn eu gerddi. Mae'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd yn ehangu darpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd i gynnwys deiliaid tai er mwyn sicrhau nad yw hyn yn achosi llygredd na niwed i iechyd pobl. Yr Awdurdod Lleol yw'r awdurdod cymwys yn hyn o beth, a gall gymryd camau gweithredu o ran niwsans a achosir gan goelcerthi.

O ganlyniad i'r ffaith bod Awdurdodau Lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau casglu gwastraff, a bod canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ar gael, ni ddylid bod angen llosgi gwastraff mewn gerddi, a gellir compostio gwastraff fel perthi neu laswellt yn effeithiol yn y cartref hefyd.'

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau penodol y mae'r Gweinidog wedi'u cael ag awdurdodau lleol ynghylch newidiadau mewn prisiau tanwydd? (WAQ54152)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol ag awdurdodau lleol yn ymwneud â phrisiau tanwydd newidiol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau penodol y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chynrychiolwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ynghylch newidiadau mewn prisiau tanwydd? (WAQ54153)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol â chynrychiolwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ymwneud â phrisiau tanwydd newidiol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa arian wrth gefn penodol y mae'r Gweinidog wedi'i neilltuo i fynd i'r afael ag effaith newidiadau mewn prisiau tanwydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ54154)

**Andrew Davies:** Dull Llywodraeth y Cynulliad o ddatblygu'r Gyllideb Derfynol i'w gymeradwyo gan y Cynulliad bob blwyddyn yw gosod cronfeydd wrth gefn ar lefel isel ond call—dim mwy nag 1 y cant o gyfanswm cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn i ddod fel arfer—nad ydynt wedi'u clustnodi at ddibenion penodol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ymateb i bwysau cynyddol a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar gostau tacsi ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ54166)

**Andrew Davies:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu gwybodaeth yn ymwneud â Gweinidogion y Cabinet ar y sail hon.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd oedd y tro diwethaf i Lywodraeth y Cynulliad drafod cynigion â Llywodraeth y DU i wneud Dydd Gŵyl Dewi yn Ŵyl y Banc? (WAQ54126)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Bu'r drafodaeth ddiwethaf yn 2002 ond mae Llywodraeth y DU yn ymwybodol o gefnogaeth barhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cael gŵyl y banc ar Ddydd Gŵyl Dewi.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am a) nifer y plant a b) nifer yr oedolion sydd wedi cofrestru fel aelodau llyfrgelloedd yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 1999, wedi'u dadansoddi fesul ardal awdurdod lleol? (WAQ54129)

**Alun Ffred Jones:** Y brif ffynhonnell o ystadegau llyfrgelloedd cyhoeddus yw'r arolwg blynyddol a gynhelir gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Ni chesglir data sy'n ymwneud ag aelodaeth mewn llyfrgelloedd cyhoeddus bellach, ac mae data sy'n ymwneud â 'benthycwyr gweithredol' wedi cymryd ei le. Nid yw CIPFA yn gwahanu data ar gyfer plant ac oedolion. Gweler tabl yn atodedig sy'n amlinellu nifer y 'benthycwyr gweithredol' ar gyfer pob llyfrgell gyhoeddus fesul awdurdod yng Nghymru ers 1999.

Cofiwch nad yw 'benthycwyr gweithredol' yn rhoi darlun cyflawn o'r bobl sy'n defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus. Nid oes angen i'r cyhoedd fod yn aelod o lyfrgell nac yn fenthyciwr i fanteisio ar ystod eang o wasanaethau megis darllen papurau newydd, defnyddio'r gwasanaeth cyfeiriadau i ateb ymholiadau, defnyddio casgliadau astudiaethau lleol neu gymryd rhan yn y nifer cynyddol o weithgareddau.

Ar hyn o bryd, caiff 'benthyciwr gweithredol' ei ddiffinio fel unigolyn sydd wedi benthyg eitem o wasanaeth llyfrgell gyhoeddus yn y flwyddyn ddiwethaf.

Fodd bynnag, mae diffiniad CIPFA o 'fenthyciwr cyhoeddus' wedi newid gydag amser ac felly mae'n anodd gwneud cymariaethau. Yn 2002-03 roedd y canllawiau a roddwyd ar gyfer cwblhau'r adroddiad ystadegol yn nodi: 'Dylai awdurdodau sydd â rhai pwyntiau gwasanaeth awtomataidd ragamcan ffigurau ar gyfer y gweddill drwy'r system awtomataidd. Gofynnir i awdurdodau nad oes ganddynt bwyntiau gwasanaeth awtomataidd nodi ffigurau aelodaeth.' (Ystadegau Gwirioneddol Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2003-04, CIPFA, tud.134). Yn sgil hynny, newidiodd y diffiniad o Fenthycwyr Gweithredol yn ystod y flwyddyn ganlynol i: 'Dylai'r ffigur hyn ddod o system reoli'r llyfrgell a dylai ymwneud â benthyciadau yn hytrach na ffigurau aelodaeth.' (Ystadegau Gwirioneddol Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2004-05, CIPFA, tud.127). O ganlyniad i hyn, bydd ffigurau ar gyfer rhai awdurdodau wedi'u mesur gan ddefnyddio dull gwahanol ac felly byddant yn dangos newidiadau amlwg yn y tabl. Dim ond yn ddiweddar y cafodd y newid hwn ei roi ar waith gan rai awdurdodau e.e. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae copïau o arolwg blynyddol CIPFA, Ystadegau Gwirioneddol Llyfrgelloedd Cyhoeddus CIPFA, ar gael drwy Wasanaethau Llyfrgell y Cynulliad.

Nodiadau
Daw'r ffigurau o Ystadegau Gwirioneddol Llyfrgelloedd Cyhoeddus CIPFA, sy'n seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. Ni ddychwelwyd gwybodaeth gan rai awdurdodau mewn rhai blynyddoedd a dangosir hyn gan y nodiant '…'.

| Awdurdod | Nifer y benthycwyr gweithredol (wedi benthyg o leiaf 1 eitem yn ystod y flwyddyn ddiwethaf) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1999-00 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 |
| Blaenau Gwent | 15,913 | 16,713 | 17,603 | 18,278 | 14,631 | 12,788 | 21,358 | 11,908 | 21,698 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 70,301 | 73,516 | 72,659 | 46,558 | 60,757 | 31,080 | 56,882 | 26,115 | 23,562 |
| Caerffili | 87,549 | 92,160 | 97,624 | 102,238 | 104,276 | 108,160 | 113,216 | 119,704 | 21,617 |
| Caerdydd | 76,081 | 96,289 | 68,892 | 63,682 | 60,370 | 64,067 | 59,045 | 58,489 | 46,067 |
| Sir Gaerfyrddin | 83,688 | 78,359 | 78,968 | 34,909 | 32,842 | 33,009 | 29,544 | 29,520 | 28,909 |
| Ceredigion | 21,534 | 11,090 | 9,448 | 11,555 | 12,398 | 10,058 | 12,000 | 13,480 | 11,009 |
| Conwy | 24,493 | 26,092 | ... | ... | 29,787 | 24,991 | 26,536 | 29,575 | 29,991 |
| Sir Ddinbych | 21,059 | 10,271 | 19,626 | 16,583 | 17,772 | ... | ... | 19,256 | ... |
| Sir y Fflint | 26,593 | 25,663 | 25,068 | 20,720 | 19,590 | 22,446 | 21,195 | 21,610 | 25,178 |
| Gwynedd | 31,288 | 29,983 | 31,101 | 31,718 | 32,311 | 29,844 | 30,032 | 32,664 | 30,996 |
| Ynys Môn | 16,828 | 16,825 | 21,664 | ... | 15,136 | 14,346 | 14,732 | 15,107 | ... |
| Merthyr Tudful | 24,105 | 24,008 | 21,850 | ... | 14,533 | 13,202 | 20,173 | 11,456 | 11,413 |
| Sir Fynwy | 32,197 | 29,562 | 40,456 | 46,071 | 25,825 | 26,669 | 24,196 | 31,176 | 29,230 |
| Castell-nedd Port Talbot | 57,985 | 54,612 | ... | ... | 23,186 | 15,818 | 13,561 | 21,486 | ... |
| Casnewydd | 37,895 | 32,564 | ... | 34,706 | 32,597 | 30,577 | 27,252 | 25,616 | 22,305 |
| Sir Benfro | 42,580 | 46,898 | 52,442 | 55,583 | 49,727 | ... | ... | ... | ... |
| Powys | ... | ... | ... | 29,188 | 38,433 | 24,547 | 23,530 | 23,786 | 22,791 |
| Rhondda Cynon Taf | 83,292 | 91,278 | 96,389 | 102,954 | 107,363 | 108,672 | 113,105 | 120,050 | 128,026 |
| Abertawe | 107,881 | 85,480 | 85,515 | 77,017 | 38,444 | 41,580 | 43,895 | 42,581 | 50,251 |
| Tor-faen | 19,475 | 18,254 | 21,715 | 21,066 | 21,601 | 19,223 | 16,495 | 15,905 | 15,741 |
| Bro Morgannwg | 56,280 | 60,992 | 59,477 | 63,164 | 22,325 | 20,296 | ... | 24,408 | 25,861 |
| Wrecsam | 85,910 | 85,040 | 88,065 | 90,168 | 99,307 | ... | ... | 18,869 | ... |

**Nodiadau**

Daw'r ffigurau o *Ystadegau Gwirioneddol Llyfrgelloedd Cyhoeddus CIPFA*, sy'n seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan yr awdurdodau lleol.

Ni ddychwelwyd gwybodaeth gan rai awdurdodau mewn rhai blynyddoedd a dangosir hyn gan y nodiant '…'.

'Benthyciwr gweithredol' yw unigolyn sydd wedi benthyg eitem o wasanaeth llyfrgell gyhoeddus yn y flwyddyn ddiwethaf. Felly, nid yw'n cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaeth y llyfrgell at ddibenion eraill e.e. papurau newydd, digwyddiadau, ymholiadau.

Mae dull CIPFA o ran cyfrifo niferoedd 'benthyciwr cyhoeddus' wedi newid gydag amser ac felly mae'n anodd gwneud cymariaethau. Mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru wedi rhoi'r dulliau cofnodi gwahanol ar waith ar adegau gwahanol e.e. Caerffili, Wrecsam.